



Teithiau cadair olwyn i gefn gwlad Gogledd Orllewin Cymru 2009 Countryside wheelchair rambles in North West Wales

Gwarchodfa Natur Lleol Nant y Pandy i Llyn Cefni /

Bydd y daith gerdded yma'n dilyn llwybr pren 1km o hyd drwy Warchodfa Natur Leol Nant y Pandy, ac yna ar hyd llwybr beic newydd sbon i Llyn Cefni. Mae cyfoeth o fywyd gwyllt i'w weld a'i glywed ar hyd y daith, ynghyd â cherfluniau'n adlewyrchu bioamrywiaeth y safle. Am wybodaeth bellach ar y daith hon, neu i archebu lle, cysylltwch a'r arweinydd.

Dyddiad: 18 Ebrill 2008

Amser: 2.00yh

Hyd y daith: 1 kilomedr

Man cyfarfod: Maes Parcio Eglwys Cyngar Sant Llangefni SH 458 759

Cyswilt: Am ragor o wybodaeth cysylltwch â: Gareth Evans, Warden Cefn Gwlad, Cyngor Sir Ynys Môn 01248 752139 jgepl@anglesey.gov.uk

Dingle Local Nature Reserve to Llyn Cefni

This walk will proceed along the 1km long wooden boardwalk through the Dingle Local Nature Reserve and then along the newly opened cycle track to Llyn Cefni. There is a wealth of wildlife to be seen and heard along the way along with wooden sculptures depicting the biodiversity of the site. For further information on this walk, or to make a booking, contact the leader.

Date: 18 April 2009

Time: 2.00pm

Length of walk: 1 kilometre

Meeting point: St Cyngars Church Car Park Llangefni SH 458 759

Contact: For further information contact Gareth Evans, Countryside Warden, Isle of Anglesey County Council, 01248 752139 jgepl@anglesey.gov.uk



Y Lôn Goed, Chwilog

Cinio yn Nhafarn Madryn, Chwilog cyn crwydro ar hyd rhan o lwybr coediog Y Lôn Goed. Yn ymestyn am 5 milltir trwy galon Eifionydd, cawn ddilyn rhan o'r daith gysgodol hon yng nghwmni hanesydd, gan sylwi ar y byd naturiol a chlywed son am chwedlau o'r oes a fu. Mae'r llwybr yn garegog ond gwastad, ac fe ganiateir i chi ddod a chŵn gyda chi ond iddynt fod ar dennyn trwy'r amser.

Dyddiad: 15 Mai 2009

Amser: 12.00pm (am ginio) neu 1.30pm am y daith

Hyd a natur y daith: 3.5 cilomedr / 2 milltir, hawdd i ganolig ar hyd lôn garegog

Man cyfarfod: Maes parcio Tafarn Madryn, Chwilog SH 243 338

Cyfleusterau: Cinio, parcio a thoiledau yn y Madryn, siop pentref

Cyswilt: Haydn Hughes, Cyngor Gwynedd
Rhif swyddfa: 01286 – 679281
Rhif symudol: 07825 – 657850

Y Lôn Goed, Chwilog

Meet for lunch at the Madryn Arms, Chwilog before wandering along part of the wooded Lôn Goed. Stretching for 5 miles through the heart of Eifionydd, we'll follow a short section in the company of a local historian, whilst observing the wildlife and hearing tales from days of old. The stony path is fairly even, and you are welcome to bring your dog, to be on a lead at all times.

Date: 15 Mai 2009

Time: 12.00pm (for lunch) or 1.30pm for the walk

Length and nature of walk: 3.5 kilometre / 2 miles, easy to moderate along a stony path

Meeting point: Car park at the Madryn Arms, Chwilog SH 243 338

Facilities: Lunch, parking and toilets at the Madryn Arms, village shop

Contact: Haydn Hughes, Cyngor Gwynedd
Office number: 01286 – 679281
Mobile number: 07825 – 657850

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyffryn Aber

Taith trwy'r dyffryn godidog a gwyllt hwn i weld y Rhaeadr Fawr, gyda sgwrsio, adrodd hanes, a thrafod y bywyd gwyllt. Fe welir coedydd naturiol cynhenid, gyda'i fywyd gwyllt perthnasol (adar a cen ar y coed). Hefyd rhoddir y warchodfa yng nghyswllt tir cyfagos – y ffaith ei fod rhwng y mor a Traeth Lafan i'r gogledd, a'r mynydd (Y Carneddau) i'r dwyrain. Hefyd gwelir gwrth-gyferbyniad planhigfa coed pin, a'i fywyd gwyllt, a'r coed cynhenid llydanddail. Mae croeso i chi ddod a chŵn gyda chi ond iddynt fod ar dennyn pob amser.

Dyddiad: 16 Mai 2009

Amser: 10.00am

Hyd a natur y daith: 4 cilomedr (taith gyfan. Mae'r llwybr yn arw a gweddol serth mewn mannau, ond fe fydd cymorth ar gael.

Man cyfarfod: Yn y gilfan fydd wedi ei neilltuo yn arbennig, rhwng y maes parcio ger yr hen bont (Bontnewydd) a maes parcio Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Cyfleusterau: Ym maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth (SH 664 719)

Cyswllt: Hywel Roberts, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Rhif swyddfa: 01286 – 679281
Rhif symudol: 07825 – 657850



Aber National Nature Reserve

A walk through this outstanding and wild valley to see Rhaeadr Fawr, whilst at the same time discussing the history, and the wildlife. Natural native woodland will be seen, with its associated wildlife (birds and lichens on the trees). Also the location of the reserve in the context of surrounding land will be explained – the fact that it is between the sea and Traeth Lafan to the north, and the mountain (the Carneddau), to the east. Also the contrast between the conifer plantation and its wildlife, and the native broadleaved trees will be seen. You are welcome to bring your dog, but it will need to be on a lead at all times.

Date: 16 Mai 2009

Time: 10.00am

Length and nature of walk: 4km (Total return trip) The path is rough and relatively steep in places, but assistance will be available.

Meeting point: In the lay-bye which will be reserved, between the car park near the old bridge (Bontnewydd) and the Forest Authority/Forest Enterprise car park.

Facilities: In the Forest Authority/Forest Enterprise car park (SH 664 719)

Contact: Hywel Roberts, Countryside Council for Wales
Office number: 01286 – 672500
Mobile number: 07768 – 918 573



Llwybr Llyn Alwen

Mae hwn yn lwybr newydd o gwmpas Llyn Alwen hefo golygfeydd gwych dros y llyn a drosodd i Eryri. Byddwn yn dilyn ochr de y llyn, i fyny i'r rhostir ac yn dychwelyd yr un ffordd. Mae'r gwyneb yn llwch llechi a mae sawl allt serth ond ddyla rhein fod yn iawn hefo batri cryf, llawn egni!

Dyddiad: 4 Gorffennaf 2009

Amser: 2.00yh

Hyd a natur y daith: 3 awr (6 milltir). Mae'r gwyneb yn llwch llechi a mae sawl allt serth.

Man cyfarfod: Maes parcio Llyn Alwen, Cerrigydrudion SH 956 530.

Cyfleusterau: Dewch a phaned gyda chi i gael picnic ar y safle. Byddwch yn barod ar gyfer tywydd sal.

Cyswilt: Alun Jones, Warden Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Rhif swyddfa: 01492 – 575200
e-bost: alun.rhys.jones@conwy.gov.uk

Llwybr Llyn Alwen Trail

This is a new trail around Llyn Alwen with fine views over the lake and over to Snowdonia. We will be following the south side of the lake, up onto the moorland and returning the same way. The surface is slate dust and there are some steep ascents but these should be fine with a strong, well-charged battery!

Date: 5 July

Time: 2.00pm

Length and nature of walk: 3 hours (6 . he surface is slate dust and there are some steep ascents.

Meeting point: Llyn Alwen car park, Cerrigydrudion SH 956 530

Facilities: Bring tea or coffee for a picnic on site. Be prepared for poor weather.

Contact: Alun Jones, Countryside Warden
Conwy County Borough Council
Office number: 01492 – 575200
e-mail: alun.rhys.jones@conwy.gov.uk



Chwarel Dinorwig

Wedi gorffen cynhyrchu llechi er hanner canrif, ond hefo ni bydd hen chwarelwyr i son am yr amser a fu. Mae'r ffordd rydym yn ddiyn yn troelli drwy'r ponciau a'r tyllau i lawr, yn serth ar adegau yn ôl i Nant Peris. Sgwrs am y daith a trefnu mynd a'r rhai sy'n cymerud rhan i gychwyn y daith yn Dinorwig.

Dyddiad: 25 Gorffennaf 2009

Amser: 1.00yh

Hyd a natur y daith: Yn serth ar adegau

Man cyfarfod: Maes parcio Nant Peris, ger Llanberis (GR 606583)

Cyswilt: Sam Roberts, Warden Parc Cenedlaethol Eryri
Rhif swyddfa: 01286 872555
ebost:wardenpenypass@hotmail.com

Dinorwig Quarry

Slate production ceased half a century ago, but with us will be some ex quarrymen to tell of times past. The route twists its way through the old workings, steep at times, back down to Nant Peris. A short chat, before organising transport for the participants to be taken to the start at Dinorwig.

Date: 25 June 2009

Time: 1.00pm

Length and nature of walk: Steep in places

Meeting point: Nant Peris car park, near Llanberis (GR 606583)

Contact: Sam Roberts, Snowdoniad National Park Authority Warden
Office phone: 01286 872555
email:wardenpenypass@hotmail.com

Coed Cefnamwlch, Tudweiliog

Dewch i fy nghyfarfod yn nhafarn Y Lion am ginio, cyn mwynhau taith tywysiedig 2 filltir i fyny trwy'r goedlan ac o gwmpas gerddi stad hanesyddol Cefnamwlch. Cawn gyfle i astudio bywyd y goedlan, hanes y stad breifat, a thrafod sut mae gerddi yn cynnal bywyd gwylt. Mae'r llwybrau yn wastad, ac fe ganiateir i chi ddod a chŵn gyda chi ond iddynt fod ar dennyn trwy'r amser.

Dyddiad: 14 Awst 2009

Amser: 12.00pm (os am ginio) neu 1.30pm ar gyfer y daith

Hyd a natur y daith: 3.5 cilomedr / 2 milltir, hawdd ar hyd lôn tarmac a llwybrau o lwch caled

Man cyfarfod: Maes parcio tafarn Y Lion, Tudweiliog (canol y pentref) SH 223 336

Cyfleusterau: Cinio, parcio a thoiledau yn Y Lion, siop yn y pentref

Cyswllt: Haydn Hughes, Cyngor Gwynedd
Rhif swyddfa: 01286 – 679281
Rhif symudol: 07825 – 657850

Woodlands at Cefnamwlch, Tudweiliog

Come and meet me for lunch at the Lion Inn, before enjoying an exclusive 2 mile guided walk through the woods and around the historic gardens at Cefnamwlch. We'll have a chance to study the woodland, the history of this private estate, and how gardens can support wildlife. The paths are even, and you are welcome to bring your dog, to be on a lead at all times.

Date: 14 August 2009

Time: 12.00pm (for lunch) or 1.30pm for the walk

Length and nature of walk: 3.5 kilometre/ 2 miles, easy along tarmac road and hard stone paths

Meeting point: Car park at the Lion Inn, Tudweiliog (centre of village) SH 223 336

Facilities: Lunch, parking and toilets at the Lion, village shop

Contact: Haydn Hughes, Cyngor Gwynedd
Office number: 01286 – 679281
Mobile number: 07825 – 657850

Parc Gwledig Morglawdd Caergybi a Traeth Newry

Bydd y daith yn dechrau o Amgueddfa Forwrol Caergybi, sy'n olrhain hanes morynd ar hyd traeth Newry ac ymlaen wedyn i Barc Gwledig Morglawdd Caergybi. Yma, cewch fwynhau tawelwch a llonyddwch llecyn oedd unwaith yn chwarel ond sydd bellach yn lawn cynefinoedd naturiol gan gynnwys llynnoedd a rhostiroedd. Byddwch yng nghwmni haneswyr lleol a swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Am wybodaeth bellach ar y daith hon, neu i archebu lle, cysylltwch a'r arweinydd.


Dyddiad: 16 Medi 2009

Amser: 2.00pm

Man cyfarfod: Maes Parcio'r Amgueddfa Morwrol, Traeth Newry SH 246 832

Cyfleusterau: Mae te a choffi ar gael yn y Parc Gwledig ac yn yr Amgueddfa.

Cyswilt: Gareth Evans, Warden Cefn Gwlad, Cyngor Sir Ynys Môn
01248 752139
jgepl@anglesey.gov.uk



Holyhead Breakwater Country Park and Newry Beach

Starting from the Holyhead Maritime Museum, which charts Holyhead's maritime history through the years, we will proceed along Newry Beach and then on to the Breakwater Country Park. Here You can enjoy the peace and tranquillity of this reclaimed quarry with it's varied habitats including lakes and heath-land. We will be accompanied by local historians and members of the Countryside and AONB Service. For further information on this walk, or to make a booking, contact the leader.

Date: 16 September 2009

Time: 2.00pm

Meeting point: Maritime Museum car park. Newry Beach Holyhead SH 246 832

Facilities: Tea and coffee available both at the Country Park and the Maritime museum.

Contact: Gareth Evans, Countryside Warden, Isle of Anglesey County Council
01248 752139
jgepl@anglesey.gov.uk

